***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1189 (Cy.146)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Ceredigion) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Ebrill 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *4 Mehefin 2012* |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 74, 84 a 89 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), a pharagraffau 8(1) o Atodlen 8 a 3(1) o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno. Mae'r pwerau hyn bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn perthynas â'r cyfan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Dyfed Powys yn unol â gofynion paragraffau 8(3) o Atodlen 8 a 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Ceredigion) 2012 a daw i rym ar 4 Mehefin 2012.

### Dynodi ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac ardal gorfodi arbennig

**2.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir ym mharagraff (2) yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

(2) Yr ardal a ddynodir yw Sir Ceredigion.

(3) Yn yr erthygl hon—

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, ac yn unol â hynny Gweinidogion Cymru yw'r 'appropriate national authority' o ran Cymru o dan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

mae i "ardal gorfodi arbennig" yr ystyr a roddir i "*special enforcement area*" gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf 2004,

mae i "ardal gorfodi sifil" yr ystyr a roddir i "*civil enforcement area*" gan baragraff 8 o Atodlen 8 i Ddeddf 2004,

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004, ac

mae i "tramgwydd parcio" yr ystyr a roddir i "*parking contravention*" gan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2004.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
un o Weinidogion Cymru

29 Ebrill 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi Sir Ceredigion yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio, ac yn ardal gorfodi arbennig, at ddibenion Atodlenni 8 a 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Sir Ceredigion i orfodi'r gyfraith am dramgwyddau parcio yn Sir Ceredigion drwy gyfundrefn cyfraith sifil, yn hytrach na gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun cyfraith trosedd.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru, Swyddfeydd y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation/bus-fourth-legislation-sub/bus-legislation-sub-annulment-fourth.htm